



Heddlu Police
DYFED-POWYS



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Polisi Iechyd a Diogelwch

Fersiwn 3.5, Chwefror 2019

RHEOLI FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Rheswm Dros Newid
1.1		S.Wathan	Diweddarau ac Adolygu
1.6	Medi 2010	S.Wathan	Diweddarau ac Adolygu
1.7	Ionawr 2011	A.Daniels	Diweddarau ac Adolygu
1.8	Tachwedd 2013	A. Daniels	Diweddarau ac Adolygu
2.0	Tachwedd 2013	S. Davis	Trawsnewid i fformat newydd
3.1	Hydref 2014	S. Bergiers	Fersiwn Diwygiedig
3.2	Mai 2015	S. Bergiers	Diweddarau ac Adolygu
3.3	Hydref 2016	S.Bergiers	Adolygiad Blynyddol
3.4	Gorffennaf 2017	S.Bergiers	Diweddarau ac Adolygu
3.5	Chwefror 2019	S.Bergiers	Diweddarau ac Adolygu

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael [yma](#).

DEDDF HAWLIAU DYNOL

TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

Enw: Rachel Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol)

Adran: Gwasanaethau Cyfreithiol


Llofnod: R.Jones

Deddf Rhyddid Gwybodaeth Act 2000

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi pob polisi ar eu gwefannau. Polisiau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i bob corff cyhoeddus gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol, dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi

Addas i'w chyhoeddi	Ydyw/Nac ydyw	Dyddiad	Llofnod
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd	Ydyw	22.02.2019	
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi.			
Niwed – mewn cyhoeddi			

Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Rhyddid Gwybodaeth

Addas i'w chyhoeddi	Ydyw/Nac ydyw	Dyddiad	Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd			
Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd.			
Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas.			
"Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn casglu ac yn defnyddio data personol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei staff ac eraill." Cyfeiriwch at Hysbysiad Preifatrwydd yr Adran Iechyd a Diogelwch, sydd ar gael gan yr Adran Iechyd a Diogelwch, os gwelwch chi'n dda.			

POLISI IECHYD A DIOGELWCH

CYFLWYNIAD

1. Diben

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r Polisi ar gyfer y Prif Gwnstabl (PG) a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) ar gyfer sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu holl adnoddau a'r rhai a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau'r Heddlu.

Bydd y Polisi'n sicrhau y bydd Heddlu Dyfed-Powys (HDP) a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ar gyfer Dyfed-Powys yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir arnynt gan ddeddfwriaeth iechyd a Diogelwch, yn arbennig adrannau 2 a 3 o [Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974](#).

Mae'r Polisi hwn yn bodloni'r ddyletswydd eglur a osodir ar gyflogwyr sydd â mwy na 5 gweithiwr i baratoi datganiad ysgrifenedig o'u polisi mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, ynghyd â disgrifiad o'u sefydliad a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer gweithredu'r polisi hwnnw.

2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer pob un o weithwyr a gwirfoddolwyr Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh. Hefyd, mae'n berthnasol ar gyfer y rhai sy'n rhannu adeilad, y rhai sy'n gweithio mewn partneriaeth, a'r rhai sydd ar secondiad gyda sefydliad arall. Bydd disgwyl cydweithredu rhwng y partïon cysylltiedig er mwyn sicrhau fod pawb yn glir ynghylch statws eu polisïau, gweithdrefnau a threfniadau unigol.

Diffinnir y polisi gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Dylai cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a pholisïau eraill sicrhau y diogelir y PG, CHTh ac unigolion yn erbyn erlyniad am fethu â chydymffurfio â'r gyfraith.

Cefnogir y polisi iechyd a diogelwch hwn gan brotocolau eraill sy'n ei gefnogi a'i ategu ac sy'n cyfeirio ato.

Heddlu Dyfed-Powys / Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

DATGANIAD POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Rydyn ni'n cydnabod fod rheoli iechyd a diogelwch yn dda yn cynnig manteision cadarnhaol o ran darparu diogelwch a gwasanaeth ardderchog i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Byddwn ni'n ceisio cyrraedd safonau iechyd a diogelwch teilwng ar gyfer ein holl weithwyr (Swyddogion Heddlu, Staff yr Heddlu, Staff SCHTh a gwirfoddolwyr) i'r graddau y mae'n bosibl, a gyda golwg ar natur ddynamig plismona gweithredol.

Byddwn ni'n:

- Darparu a chynnal adeiladau, offer a systemau gwaith sy'n ddiogel ac iach;
- Sicrhau fod yr awyrgylch weithio'n cynnwys cyfleusterau digonol a threfniadau ar gyfer lles staff;
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, goruchwyliaeth a hyfforddiant digonol;
- Pennu adnoddau digonol ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Sicrhau y rhoddir pwys cyfartal i amcanion sefydliadol eraill i iechyd a diogelwch;
- Annog cysylltiad ein gweithwyr, cynrychiolwyr diogelwch a'n gwirfoddolwyr ym mhob agwedd o iechyd a diogelwch;
- Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol tuag at faterion iechyd, diogelwch a lles drwy weithredu system rheoli iechyd a diogelwch;
- Mesur a monitro ein perfformiad iechyd a diogelwch â'r nod o wella parhaus ar draws y sefydliad.

Rydyn ni'n derbyn cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch rhai nad ydyn ni'n eu cyflogi megis gwirfoddolwyr, contractwyr, ymwelwyr ag adeiladau y mae CHTh yn berchen arnynt, ac aelodau o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan ein gweithredoedd neu esgeulustod.

Byddwn ni'n cydymffurfio'n llawn â [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974](#), a phob darpariaeth statudol a chodau ymarfer cymeradwy eraill.

Rydyn ni'n disgwyl i'n holl weithwyr (Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu), gwirfoddolwyr, contractwyr ac ymwelwyr sy'n gweithio ar ein rhan i gydweithredu'n llwyr â'r polisi hwn.

Llofnod: 

Mark Collins
Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys

Dyddiad: 25/02/2019

Llofnod: 

Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Dyddiad: 13/3/2019

3. Manylion Polisi

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

CHTh Dyfed-Powys

Fel cyflogwr cyfreithiol Staff o fewn SCHTh, mae gan y CHTh gyfrifoldebau statudol dros eu hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith. Dirprwyir cyfrifoldebau CHTh fel cyflogwr i Bennaeth Staff SCHTh.

Hefyd, fel perchennog adeiladau'r ystâd heddlu, mae gan y CHTh ddyletswyddau o dan Adran 4 o [Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974](#) i sicrhau fod adeiladau'n ddiogel. Rhyddheir y ddyletswyddau hyn drwy'r systemau rheoli diogelwch ac ystadau a thrwy arolygiaeth CHTh o reolaeth o'r ystâd heddlu.

Mae gan y CHTh gyfrifoldebau hefyd o dan [Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2012](#) i sicrhau y cynhelir heddlu effeithiol ac effeithlon ac i ddal y PG i gyfrif am swyddogaethau'r PG a phersonau o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth.

Gan hynny, mae'r CHTh yn dal goruchwyliaeth strategol dros drefniadau iechyd a diogelwch yr Heddlu a'i ymrwymiad i reoli'r holl weithgareddau yr ymgymerir â nhw o fewn SCHTh. Yn arbennig, mae gan y CHTh y cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau ar gyfer holl ystâd HDP, gan gynnwys:-

- Sicrhau fod adnoddau ar gael i alluogi cyflawni amcanion gweithredol a strategol;
- Monitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd perfformiad iechyd a diogelwch cyffredinol yr Heddlu drwy adolygiad blynyddol;
- Sicrhau fod yr adeiladau o fewn yr Ystâd Heddlu'n ddiogel, a weithredir drwy'r Systemau Rheoli Diogelwch ac Ystadau a thrwy oruchwyllo rheolaeth o'r ystâd Heddlu;
- Sicrhau y darperir offer, deunyddiau ac arian digonol, a phersonél cymwys, er mwyn bodloni'r holl ofynion diogelwch, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol gwneud hynny;
- Cydweithio â'r Prif Gwnstabl o ran datblygu arferion rheoli iechyd a diogelwch effeithiol, gan gynnwys adolygu ac archwilio.

Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys

Mae gan y PG ddyletswyddau cyflogwr mewn perthynas â Swyddogion, Staff a Gwirfoddolwyr yr Heddlu sy'n cael eu diffinio'n gyflogion ar gyfer diben iechyd a diogelwch o dan [Ddeddf \(Iechyd a Diogelwch\) yr Heddlu 1997](#).

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer materion iechyd a diogelwch dydd i ddydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys gan gynnwys:

- Cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu gweithgareddau gweithredol dydd-i-ddydd, a rheoli materion iechyd a diogelwch ar gyfer staff, swyddogion a gwirfoddolwyr yr heddlu;
- Sicrhau fod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer gweithredu'r polisi hwn yn effeithiol;
- Sicrhau fod adnoddau digonol yn cael eu pennu er mwyn bodloni gofynion iechyd a diogelwch sy'n bodoli a rhai y'u disgwylir, gyda chymorth y CHTh;
- Sicrhau fod lefel monitro, archwilio ac adolygu priodol yn bodoli er mwyn cynnal gwella parhaus perfformiad iechyd a diogelwch yr Heddlu.

Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) dros Iechyd a Diogelwch

Bydd y Dirprwy Brif Gwnstabl yn cyflawni rôl "Arweinydd" dros iechyd a diogelwch o fewn y Grŵp Prif Swyddogion, ac mae ganddo gyfrifoldeb i adrodd am faterion i'r Bwrdd Plismona. Mae'r rôl hon yn gwasanaethu fel eiriolwr – hyrwyddo, cefnogi, noddi a chwestiynu materion iechyd a diogelwch

ar Lefel Prif Swyddog a Bwrdd Plismona. Bydd yn darparu cyswllt rhwng y Bwrdd Plismona, y GPS a Phwyllgor Iechyd a Diogelwch yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys:

- Cadeirio'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch;
- Arwain ar ran y Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau fod trefniadau priodol ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn bodoli;
- Adrodd i'r Bwrdd Plismona a'r GPS ar faterion iechyd a diogelwch.

Prif Swyddogion

Mae pob Prif Swyddog a Phennaeth Adran yn gyfrifol am sicrhau y gweithredir y polisi hwn a'i fod yn cael ei reoli'n effeithiol o fewn eu maes cyfrifoldeb. Yn benodol, disgwylir iddynt:

- Sicrhau fod adnoddau priodol ar gael ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn llwyddiannus;
- Arwain drwy esiampl mewn materion iechyd a diogelwch a disgwyl yr un fath o'r sawl sy'n adrodd iddynt yn uniongyrchol a rheolwyr a goruchwylwyr eraill;
- Defnyddio dangosyddion er mwyn mesur perfformiad uwch reolwyr yn erbyn amcanion a thargedau iechyd a diogelwch;
- Sicrhau fod trefniadau cyfarfodydd adrannol a'r pwyllgor iechyd a diogelwch yn gweithio'n effeithiol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb;
- Mesur ac adolygu perfformiad yn erbyn dangosyddion, targedau, a chynlluniau gweithredu iechyd a diogelwch.

Rheolwyr a Goruchwylwyr

Disgwylir i bawb sydd â chyfrifoldeb rheoli neu oruchwylio hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn y gweithle, ac maen nhw'n gyfrifol am sicrhau fod:

- Peryglon yn cael eu nodi a'u rheoli;
- Pobl sydd mewn perygl yn cael eu hadnabod a'u darparu â systemau gweithio diogel yn ôl yr angen;
- Aseiad risg dilys a phriodol yn cael ei gynnal gan unigolyn cymwys ar gyfer pob risg sylweddol yn y gwaith;
- Canlyniadau'r aseuadau risg hyn yn cael eu cofnodi a'u cyfathrebu i weithwyr mewn modd priodol ac amserol;
- Hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen er mwyn galluogi gweithwyr a rheolwyr i ryddhau eu dyletswyddau mewn modd diogel;
- Cofnod o aseuadau risg yn cael ei gadw ar gyfer ymweliadau archwilio a chydymffurfiaeth;
- Aseuadau risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol, yn dilyn digwyddiad neu pryd bynnag y mae amgylchiadau'n newid yn sylweddol;
- Digwyddiadau'n ymwneud ag anafiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd yn cael eu cofnodi a'u hymchwilio, a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd er mwyn atal ail ddigwyddiad lle bynnag fo'n bosibl;
- Amser ac adnoddau digonol yn cael eu pennu er mwyn caniatáu i iechyd a diogelwch gael eu rheoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys nodi a bodloni anghenion hyfforddi.

Holl Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu a Gwirfoddolwyr

Rhaid i bob gweithiwr a gwirfoddolwr:

- Gymryd gofal rhesymol dros ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithredoedd neu esgeulustod yn y gwaith;
- Dilyn systemau gweithio diogel a rhagofalon eraill a nodir mewn aseuadau risg;
- Adrodd am unrhyw newidiadau i amgylchiadau personol a allai effeithio ar ei allu i weithio'n ddiogel;
- Adrodd am beryglon, digwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd i'w reolwr llinell / goruchwyllydd;

- Hysbysu ei reolwr / goruchwylydd am anghenion hyfforddi posibl o ran iechyd a diogelwch;
- Derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch y cytunwyd arno gyda'i reolwr llinell / goruchwylydd a dweud wrth ei reolwr pryd y gall fod angen hyfforddiant neu hyfforddiant gloywi.

Iechyd a Diogelwch (Llywodraethu a Newid)

Mae Uwch Reolwr Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd yr Heddlu'n darparu gwybodaeth a chynngor cymwys ar faterion iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol i'r Heddlu a SCHTh mewn cydymffurfiaeth â Rheoliad 7 o [Reoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999](#).

Mae'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol o iechyd a diogelwch yn y gweithle, felly mae'n cael ei ystyried yn rhan hanfodol o weithrediad effeithlon Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynghori ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Rhoi cynngor proffesiynol i Brif Swyddogion a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch;
- Paratoi ac adolygu elfennau o'r system rheoli iechyd a diogelwch megis polisi, cynlluniau gweithredu, asesiadau risg, canllawiau ac ati;
- Monitro cydymffurfiaeth â gofynion statudol a mewnol;
- Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol;
- Derbyn ffurflenni ar gyfer adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau, cynnal cofnodion, monitro data ac adrodd ar dueddiadau;
- Darparu gwybodaeth gyffredinol ac arweiniad ar draws yr heddlu ar faterion a allai effeithio ar iechyd a diogelwch gweithwyr neu eraill.

Y Ffederasiwn Heddlu, y Gymdeithas Uwch-arolygwyr a Chynrychiolwyr Unsain

Mae cynrychiolwyr y Ffederasiwn Heddlu, y Gymdeithas Uwch-arolygwyr ac Unsain yn cynrychioli buddiannau eu haelodau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch yn y gwaith. Mae ganddynt yr hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Mae hawl gan aelodau o Unsain a'r Ffederasiwn Heddlu ethol Cynrychiolwyr Diogelwch sydd â hawliau cyfreithiol i gyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Ymchwilio i ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd;
- Ymchwilio i gwynion ynghylch materion iechyd a diogelwch;
- Cynnal archwiliadau o'r gweithle;
- Cyflwyno sylwadau i'r cyflogwr mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch;
- Cynrychioli staff mewn trafodaethau gydag arolygwyr iechyd a diogelwch a derbyn gwybodaeth wrthynt;

4. Polisiâu, protocolau, arferion neu Gytundebau Gwasanaeth cysylltiedig

- [Polisi Cymorth Cyntaf](#)
- [Polisi Tân](#)
- [Polisi Amgylcheddol](#)

Gweithir gyda rheolwyr lleol i sicrhau y dilynir arferion gweithio diogel ac iach. Fodd bynnag, dylid cofio bod y prif gyfrifoldeb ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch pobl yn gorwedd gyda rheolwyr, nid y cynrychiolydd diogelwch. Dylai rheolwyr ymgynghori â'r cynrychiolydd diogelwch wrth gynnal asesiadau risg oherwydd mae ganddo rôl bwysig o ran sicrhau yr ystyrir barn ac arbenigedd staff.

TREFNIADAU RHEOLI I'W GWEITHREDU

Gweithdrefnau

Cynhwysir gweithdrefnau lechyd a Diogelwch safonol a gweithdrefnau gweithredol penodol sy'n effeithio ar swyddogion a staff yn y ddogfen Trefniadau lechyd a Diogelwch, sef **Atodiad 1**.

Mae'r trefniadau hyn, ynghyd â'r system rheoli iechyd a diogelwch, yn atgyfnerthu'r Polisi hwn ac yn nodi ei weithrediad.

Pwyntiau Allweddol

Alinir gweithdrefnau gweithredol penodol â'r system rheoli iechyd a diogelwch ac maen nhw'n rhan o'r fframwaith rheoli sy'n darparu staff, swyddogion a gwirfoddolwyr â gweithdrefnau, arweiniad a chynngor arfer gorau.

Tra bod y gweithdrefnau a'r dogfennau canllaw cysylltiedig yn rhoi manylion llawn am y trefniadau ar gyfer gweithredu'r polisi hwn, mae'r wybodaeth ganlynol yn crynhoi rhai pwyntiau allweddol:

Asesu Risg

Asesu risg yw congflaen rheoli iechyd a diogelwch effeithiol. Rhaid i asesiad risg gael ei gynnal gan y rheolwr/goruchwylydd sy'n gyfrifol am unrhyw weithiwr neu weithwyr sy'n cyflawni gweithgareddau gwaith sy'n cynnwys peryglon sylweddol. Rhaid iddynt ystyried:

- Y peryglon i iechyd a diogelwch y gweithwyr sy'n wynebu'r perygl;
- Y peryglon i iechyd a diogelwch eraill a allai gael eu effeithio gan weithgareddau'r gweithwyr hynny;
- Y mesurau gofynnol ar gyfer sicrhau lle gwaith iach a diogel.

Mae'n bwysig cofio mai ffordd systematig o nodi sut y gellir cyflawni gweithgareddau gwaith yn gymharol ddiogel yw'r broses asesu risg. Nid yw asesu risg yn ymwneud â dileu'r holl beryglon posibl, ac nid yw'n ymwneud a chynhyrchu gweithdrefnau sydd byth yn cael eu rhoi ar waith.

Lle bo'n ymarferol, dylid adolygu asesiadau risg yn dilyn digwyddiad, neu pan mae'r gweithgarwch gwaith yn newid. Os na fu unrhyw newidiadau neu ddigwyddiadau, rhaid iddynt gael eu hadolygu'n flynyddol. Ceir rhagor o wybodaeth ac arweiniad ynglŷn ag asesu risg ar dudalennau mewnwyd yr Adran Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn cynnwys rhestr sy'n dangos holl asesiadau risg Heddlu Dyfed-Powys, sy'n cael eu monitro o leiaf unwaith bob chwe mis er mwyn sicrhau y gweithredir ar y dyddiadau adolygu.

Mae'n ofynnol yn ôl rhai deddfwriaethau i gyflawni asesiadau risg penodol e.e. codi a chario, cyfarpar sgrin arddangos a sylweddau peryglus.

Mae angen i Swyddogion Heddlu a Staff Heddlu Gweithredol fod yn ymwybodol o dechnegau asesiadau risg dynamig fel eu bod nhw'n medru cyflawni asesiadau goddrychol o beryglon yn ystod digwyddiadau risg uchel amser cyflym, a chymryd camau gweithredu priodol ac uniongyrchol i reoli'r peryglon a'r risgiau.

Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

Mae gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y prif swyddogaethau o oruchwylio strategaeth iechyd a diogelwch Heddlu Dyfed-Powys a monitro ei berfformiad o ran iechyd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor hwn yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl (DBG) gyda chymorth Uwch Reolwr Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd Heddlu Dyfed-Powys, ac mae aelodaeth yn cynnwys Cadeiryddion y Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch Rhanbarthol neu eu dirprwy enwebedig, arweinwyr iechyd a diogelwch SCHTh, y Ffederasiwn Heddlu ac Unsain. Mae'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn cefnogi ac yn cynghori'r Pwyllgor. Mae'r camau gweithredu o'r Pwyllgor ar gael ar dudalennau mewnwyd yr Adran Iechyd a Diogelwch.

Hyfforddiant

Mae'r Adran Iechyd a Diogelwch (Llywodraethu a Newid) yn darparu matrices hyfforddi sy'n amlinellu'r hyfforddiant iechyd a diogelwch sydd ar gael ac yn nodi pwy ddylai fod yn bresennol.

Mae'r adran Gwasanaethau Dysgu a Datblygu'n trefnu'r cyrsiau, sy'n cael eu cyflwyno mewn amryw o ffyrdd:-

- . Drwy e-ddysgu;
- . Yn fewnol; ac
- . Yn allanol

Cynhelir cofnodion o hyfforddiant iechyd a diogelwch gan yr adran Gwasanaethau Dysgu a Datblygu.

Rhaid i reolwyr sicrhau fod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant ymgynffwrdd a hyfforddiant iechyd a diogelwch arall, sy'n briodol i anghenion eu gwaith.

Mae gwybodaeth ynghylch cael mynediad i hyfforddiant ar gael drwy'r tudalennau Dysgu a Datblygu o fewn yr adran Gwasanaethau Pobl ar y fewnwyd.

5. Monitro

Monitro, Archwilio ac Adolygu

Mae monitro perfformiad iechyd a diogelwch yn defnyddio technegau ymatebol a rhagweithiol.

Monitro Ymatebol

Mae hyn yn digwydd ar ôl digwyddiadau megis damweiniau ac afiechydon sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae'n cynnwys ymchwilio i ddigwyddiadau, dadansoddi data ac adrodd amdano, ystadegau a thueddiadau, a glynu wrth y gofynion statudol ar gyfer hysbysu am anafiadau ac ati.

Adroddir am ystadegau damweiniau / digwyddiadau yng nghyfarfodydd y pwyllgor iechyd a diogelwch ac mewn cyfarfodydd rheoli adrannol.

Yr Adran Iechyd a Diogelwch sy'n adrodd i'r Gweithredwr Iechyd a Diogelwch o dan [Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013](#) ar ôl derbyn Ffurflen Ddamweiniau A324.

Monitro Rhagweithiol

Mae hyn yn digwydd cyn digwyddiadau megis damweiniau neu salwch ac mae'n cynnwys archwilio safleoedd, adolygiadau cyfnodol o asesiadau risg, a monitro'r nifer sy'n derbyn hyfforddiant.

Mae Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliadau safle er mwyn monitro materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â safle ar amllder sy'n dibynnu ar lefel y perygl. Yn ogystal, bydd y rhai sydd wedi'u dynodi'n "Unigolion Cyfrifol" ar gyfer safle'n sicrhau bod taith ddiogelwch chwarterol yn cael ei chynnal gan ddefnyddio'r "Rhestr Wirio Iechyd a Diogelwch".

Iechyd a Diogelwch (y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio) sy'n craffu ar asesiadau risg drwy adolygu/archwilio asesiadau risg a'u gweithrediad yn ymarferol. Adroddir drwy'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

6. Adolygu

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n ffurfiol yn flynyddol gan y Grŵp Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Mae'n bosibl y bydd y Polisi'n destun craffu gan Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a phartion eraill perthnasol fel y bo'n briodol.

7. Y Broses Apelio

Pan mae gweithiwr yn teimlo nad yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n briodol, dylai

Apelio i'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio neu swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Gall aelodau o'r cyhoedd ac unigolion nad ydynt yn weithwyr apelio drwy broses gwyno'r Heddlu, naill ai ar wefan yr Heddlu neu mewn unrhyw orsaf heddlu.

8. Pwy ddylid cysylltu â nhw am y polisi hwn

Cysylltwch â'r Uwch Reolwr Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd yn achos unrhyw ymholiad sy'n ymwneud â chynnwys y polisi hwn.

Yr Uwch Reolwr Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd

Ffôn: est. 23183 / 01267 226429

E-bost: steve.bergiers@dyfed-powys.pnn.police.uk